

Polisi - Aseu Seicometrig

Cymeradwywyd gan	Y Cyngor Llawn
Dyddiad Cymeradwyo	25/06/22
Dyddiad Rhoi ar Waith	25/06/22
Perchennog	MK/HM
Dyddiad Adolygu	31/03/23

Polisi - Asesu Seicometrig

Rheoli Fersiynau

Mae'r ddogfen hon yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi. Gellir dod o hyd i'r fersiynau diweddaraf o'n cyhoeddiadau ar ein gwefan. Cyn cysylltu â ni ynghylch cynnwys y ddogfen hon, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y wefan a'r canllawiau perthnasol.

Fersiwn	Dyddiad Cymeradwyo	Cymeradwywyd gan	Nodiadau / newidiadau
f1.0	12.04.16	Cyngor Llawn	Polisi Newydd
f1.2	14.09.17	Sophie Vaughan	Cynnwys technoleg wrth brofi
f2.0	25.04.18	Andrea Malam	Ail-fformatio
f2.1	25.06.22	David Kennedy	Ail-fformatio

Polisi - Asesu Seicometrig

Cynnwys

Rheoli Fersiynau	2
Cynnwys	3
Tystysgrif Cymhwysedd Profi Galwedigaethol	4
2. Gweithdrefnau profion seicometrig	5
Gweinyddu'r Profion	5
Dewis profion a dethol	6
Ymgeiswyr y Profion	7
Canlyniadau profion galwedigaethol	7
Adborth ar ganlyniadau'r profion	7
Dibynadwyedd a dilysrwydd y profion	7
Cyfle cyfartal	8
Safonau Rhyngwladol ar gyfer cyflenwi canolfan asesu (ISO 10667)	8
Ailbrofi	9
Defnyddio Technoleg wrth Brofi	9
3. Diogelwch dogfennau	9

Polisi - Asesu Seicometrig

ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

Yr Partner Arweiniol Busnes-Datblygu Trefniadaeth sy'n gyfrifol am ddarparu canllawiau cofrestru, cyngor, hyfforddiant a gweithredu ar y cyd â'r Arbenigwr Recriwtio a'r Undebau Llafur er mwyn sicrhau y caiff y polisi ei roi ar waith a'i fonitro yn effeithiol.

Mae'r Partner Arweiniol Busnes-Datblygu Trefniadaeth ac aelodau hyfforddedig Adnoddau Dynol yn gyfrifol am archebu a chadw deunyddiau yn ddiogel, cofnodi holl weithgareddau'r ganolfan asesu a dehongli'r offer asesu ynghyd â rhoi adborth i'r panel recriwtio.

Caiff gwaith y cyngor o weinyddu, sgorio a dehongli'r profion ei wneud ar y cyd â Chymdeithas Seicolegol Prydain.

Rhaid i bawb sy'n defnyddio'r profion sicrhau eu bod yn defnyddio'r profion i'r safonau proffesiynol uchaf ac yn unol â'r canllawiau a nodir yn y polisi hwn yn unig.

Tystysgrif Cymhwysedd Profi Galwedigaethol

Gall staff Adnoddau Dynol oruchwylio'r amgylchedd rheoledig ar gyfer gweinyddu profion a rhoi adborth ar sail y canlyniadau yn amodol ar lefel eu hyfforddiant ym maes profi galwedigaethol (Cymdeithas Seicolegol Prydain, Lefel A). Mae mwy o fanylion am gymhwysedd ar gael gan Adnoddau Dynol.

Mathau o brofi seicometrig

Mae Profi Seicometrig (neu Alwedigaethol) yn ddull a ddefnyddir i ddedol, datblygu gyrfa ac adeiladu tîm. Yn yr achosion hynny lle ystyrir bod profion yn briodol, mae'r cyngor wedi ymrwymo i gyrraedd y safonau uchaf wrth ddefnyddio profion seicometrig ar gyfer dewis a datblygu, er mwyn gwneud y budd mwyaf ohonynt a hybu tegwch a chyfle cyfartal i bawb. Defnyddir profi seicometrig ar y cyd â dulliau profi ac asesu eraill, er enghraifft, cyfweliadau, cyflwyniadau ac ymarferion grŵp.

Mae tri math o brofion seicometrig:

- **Holiaduron Personoliaeth ac Ysgogiad** – yn canolbwyntio ar ymddygiad arferol neu ddewisol

Polisi - Asesu Seicometrig

- **Profion Gallu** – yn canolbwyntio ar berfformiad gorau mewn meysydd penodol Mae cymorth a chyngor am brofi seicometrig ar gael gan Adnoddau Dynol.

Gweithdrefnau profion seicometrig

Gweinyddu'r Profion

Bydd y cyngor yn sicrhau mai defnyddwyr profion hyfforddedig/cymwysedig yn unig sydd â'r cymhwyster perthnasol (BPS lefel A/lefel B) fydd yn defnyddio ac yn dehongli offer seicometrig. Gall defnyddwyr profion hyfforddedig/cymwysedig ddirprwyo'r gwaitho weinyddu'r profion i unigolyn sydd wedi derbyn hyfforddiant yn y maes hwn.

Bydd Adnoddau Dynol yn sicrhau y defnyddir y deunyddiau diweddaraf ar gyfer yr holl brofion.

Os caiff ymgynghorwyr allanol eu cyflogi i ddefnyddio profion yn y cyngor, byddir yn dilysu lefel eu hardystiad a byddant yn amodoli'r gweithdrefnau hyn.

Mae'n hollbwysig bod profion yn cael eu briffio a'u gweinyddu'n gywir er mwyn sicrhau ansawdd y data a gaiff ei gynhyrchu. Os nachaiff y profion eu gweinyddu gan roi sylw dyladwy i'r weithdrefn a argymhellir, neu os caiff y sawl sy'n eistedd y profion eu cymell neu os rhoddir gwybodaeth annigonol iddynt ynghylch pwrpas yr asesiad, efallai yr effeithir ar eu hagwedd wrth gwblhau'r profion. Gall hyn yn ei dro gael effaith ar eu hatebion ac ystumio'r canlyniadau.

Caiff ymgeiswyr eu trin yn foesebol ar bob cam o'r broses brofi a chyn y sesiwn brofi byddant yn cael gwybod yn ysgrifenedig:

- beth yw natur yr asesiad, pam y caiff ei ddefnyddio, o dan ba amodau y caiff ei gynnal a natur yr adborth y byddant yn eiddorbyn
- sut y defnyddir eu canlyniadau, e.e. ynghyd â gwybodaeth arall o'r cyfweiliad a'r ffurflen gais i wneud penderfyniad ynglŷn â'u
- haddasrwydd ar gyfer y swydd
- pwy fydd yn cael gweld eu canlyniadau (yn gyfyngedig i'r rheini sydd arnynt wirioneddol angen gwybod)
- am ba mor hir y cedwir y canlyniadau (gan gyfeirio at y Ddeddf Diogelu Data)

Polisi - Asesu Seicometrig

Gofynnir am gydsyniad gwybodus yr ymgeiswyr i gymryd rhan yn y broses brofi. Os bydd ymgeisydd yn gwrthod eistedd y profion ni chaiff ei gymell ac er na fyddir yn ystyried y penderfyniad i wrthod cymryd rhan yn y broses mewn goleuni negyddol wrth wneud penderfyniadau yn y broses asesu, efallai y bydd absenoldeb data prawf cymharol yn ffactor yn y penderfyniad i ddewis ymgeiswyr.

Cedwir at y cyfarwyddiadau gweinyddu, sgorio a dehongli sy'n ymwneud â'r prawf(ion) a weinyddir bob amser. Ni ddefnyddir data'r profion ar gyfer unrhyw bwrpas ac eithrio'r hyn y mae'r ymgeisydd wedi cytuno iddo.

Dewis profion a dethol

Os yw profi dan ystyriaeth, dylid cysylltu â Adnoddau Dynol cyn gynted â phosibl yn y broses recriwtio i drafod:

- a yw'n briodol i ddefnyddio profion ac a fyddant yn darparu unrhyw wybodaeth berthnasol ychwanegol
- sut y mae perthnasedd y prawf yn gysylltiedig â gofynion y swydd
- pa brawf y dylid ei ddefnyddio
- faint o amser fydd ei angen ar gyfer y broses
- faint o staff hyfforddedig cymwys sydd ar gael i weinyddu profion a rhoi adborth ar sail y canlyniadau

Rhaid dangos bod y profion seicometrig yn berthnasol ar gyfer y pwrpas a nodwyd. Gellir defnyddio profion seicometrig ar gyferdethol ymgeiswyr dim ond os yw'r swydd wedi'i dadansoddi'n drylwyr ac os lluniwyd manyleb yr unigolyn i ddiffinio'r sgiliau, galluoedd a chymwyseddau angenrheidiol ar gyfer sicrhau perfformiad effeithiol yn y swydd. Yna gellir gwneud y profion yn berthnasol ar gyfer gofynion y swydd, sydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith.

Rhaid i asesydd hyfforddedig o Adnoddau Dynol gyfiawnhau pam y cynhelir yr asesiad(au) a chofnodi hyn ar y Ffurflen Rheoli Swyddi Gwag (VCF) a gedwir ar y ffeil recriwtio.

Ni chaiff holiaduron personoliaeth eu defnyddio i lunio rhestr fer, er efallai y byddant yn addas fel gwybodaeth ategol ynndiweddarach yn y broses ddethol.

Polisi - Asesu Seicometrig

Ymgeiswyr y Profion

Bydd ymgeiswyr yn derbyn rhybudd digonol os bydd yn rhaid iddynt gwblhau'r prawf a gwybodaeth berthnasol ychwanegol. Hefyd, bydd yr unigolyn yn derbyn gwybodaeth ynghylch y dull o roi adborth ar y canlyniadau, sut y byddant yn cael eu storio a sut y gellir cael mynediad atynt.

Bydd y cyngor yn gofyn am ganiatâd yr unigolyn mewn perthynas â'r uchod.

Canlyniadau profion galwedigaethol

Dim ond aseswyr cymwysedig a gaiff ddehongli sgoriau'r profion. Caiff unrhyw sgoriau a roddir eu dehongli gan ddefnyddio grŵp norm a gaiff ei benderfynu gan yr asesydd a'r panel recriwtio.

Adborth ar ganlyniadau'r profion

Bydd pob ymgeisydd yn cael cynnig adborth gan asesydd cymwysedig o Adnoddau Dynol a hynny mewn cyfarfod wyneb yn wyneb fel rheol. Bydd yr un asesydd hefyd yn rhoi adborth llafar i'r panel recriwtio, fel rheol cyn y cyfweliad.

Dibynadwyedd a dilysrwydd y profion

Rhaid i bob prawf sy'n cynorthwyo'r broses ddethol fod yn ddibynadwy a dilys. Mae dibynadwyedd prawf yn ymwneud â pha mor fanwl y mae'n mesur a darperir data ystadegol am ddibynadwyedd gan gyhoeddwyr profion ag enw da. Dilysrwydd y prawf yw'r graddau y mae'r prawf yn gallu rhagfynegi perfformiad llwyddiannus yn y swydd a pha mor berthnasol yw hynny. Mae cyhoeddwyr profion yn darparu data ystadegol i ddangos pa mor ddilys yw eu profion ar gyfer gwahanol swyddogaethau neu mathau o waith. Mae'r wybodaeth hon o gymorth wrth ddethol profion addas a gall Adnoddau Dynol roi cyngor ar y mathau o brofion sydd ar gael, y costau a pha mor ddefnyddiol ydynt ar gyfer swydd benodol.

Mae'n hanfodol na chaiff dilysrwydd prawf ei farnu ar sail ei ddilysrwydd ymddangosiadol (h.y. mae'n edrych yn iawn) neu ar sailffydd yn unig (h.y. oherwydd ein bod wedi ei ddefnyddio o'r blaen – ond heb ddata ystadegol i gyfiawnhau ei effeithlonrwydd).

Polisi - Asesu Seicometrig

Cyfle cyfartal

Caiff pob asesiad ar gyfer dethol a dyrchafu eu monitro i sicrhau nad ydynt yn camfanteisio'n annheg nac yn eithrio unrhyw ran o'r boblogaeth.

Ni chaiff unrhyw ymgeisydd wynebu gwahaniaethu, aflonyddu neu fwlio na derbyn triniaeth llai ffafriol ar sail eu hoedran, anabledd, ailbennu rhyw, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, hil, beichiogrwydd neu famolaeth, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu gyfrifoldebau gofal.

Rhaid gwneud trefniadau eraill addas pan fydd anabledd yn atal unigolyn â'r cymwysterau addas rhag cymryd rhan yn y gweithdrefnau dethol safonol. Cysylltwch â'r Arbenigwr Recriwtio cyn gwneud unrhyw newidiadau i weithdrefnau gweinyddu'r profion, os gwelwch yn dda.

Safonau Rhyngwladol ar gyfer cyflenwi canolfan asesu (ISO 10667)

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ddinbych gyrraedd y safonau rhyngwladol ar gyfer cyflenwi canolfan asesu (ISO 10667) a rhaid iddosicrhau ei fod ef, a phawb y mae'n gyfrifol am reoli eu gwaith, yn gymwys i wneud yr asesiad.

Rhaid iddynt:

- Wneud eu gwaith gan ddefnyddio canllawiau technegol addas a dderbyniwyd gan y proffesiwn i ddethol neu ddatblygu asesiadau effeithiol;
- Cael gwybodaeth ddigonol am ddamcaniaethau, methodoleg ac arferion mesur yn ymwneud â gwaith asesu a lleoliadau sefydliadol
- Cael gwybodaeth ddigonol am y dulliau asesu sydd ar gael a ddefnyddir mewn lleoliadau gwaith a sefydliadol (ch) Cael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn meysydd perthnasol
- Gwybod beth yw galluoedd pob unigolyn sy'n darparu gwasanaethau a sicrhau na fyddir yn gofyn i'r bobl hynny weithio y tu hwnt i'w gallu
- Gofyn i bobl sy'n darparu gwasanaethau o dan ei reolaeth weithio o fewn terfynau eu moseg proffesiynol.

Polisi - Asesu Seicometrig

Ailbrofi

At ddibenion dethol, mae canlyniadau prawf ymgeisydd yn ddilys ar gyfer unrhyw swydd debyg am 6 mis ar ôl dyddiad y prawf. Gellir ailbrofi ymgeiswyr ar ôl chwe mis ar gais. Dim ond yn unol â disgresiwn y rheolwr recriwtio perthnasol y gellir ailbrofi ymgeiswyr yn gynt na hynny a dim ond os oes tystiolaeth i awgrymu eu bod o bosibl wedi tanberfformio y tro cyntaf e.e. oherwyddsalwch. Dylai ymgeiswyr ddarparu manylion yn ysgrifenedig i gefnogi eu cais.

Defnyddio Technoleg wrth Brofi

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn darparu profion o bell dros y rhyngwyd a bydd y rheiny sy'n cael eu profi yn derbyn gwybodaethbriodol am y broses a phwy i gysylltu â nhw am gymorth yn ôl y gofyn. Cefnogir penderfyniadau terfynol drwy gynnal profion ychwanegol dan oruchwyliaeth os oes angen.

Rhaid i holl ddefnyddwyr y Prawf sicrhau fod holl ddeunyddiau'r prawf yn cael eu storio'n ddiogel. Dylai'r Arbenigwr Recriwtio sicrhau fod cofnod cywir yn cael ei gadw o holl ddeunyddiau'r prawf. Dylai'r cofnod gael ei ddiweddarau pan gaiff deunyddiau eutynnu, eu newid neu eu hychwanegu i'r storfa.

Diogelwch dogfennau

Rhaid cadw dogfennau seicometrig yn ddiogel (mewn cypyrddau ffeilio wedi eu cloi) bob amser o fewn yr adran Adnoddau Dynol a dim ond y rheini sydd yn gymwysedig i ddefnyddio'r deunyddiau a gaiff fynediad atynt. Ni chaiff ymgeiswyr fynd â deunyddiau'r ganolfan asesu adref. Ni ddylid caniatáu i bobl nad ydynt wedi derbyn hyfforddiant gael mynediad at ddata crai y profion, dim ond dehongliadau a ddisgrifiwyd yn glir.

Caiff canlyniadau asesiadau eu cadw yn gyfrinachol ac ni fyddant yn cael eu storio heb ganiatâd yr ymgeisydd yn unol â Deddf Diogelu Data 1998. Bydd canlyniadau'r asesiadau yn ddilys am gyfnod o chwe mis a chânt eu dinistrio ar ôl y cyfnod hwn yn unol â'r Polisi Recriwtio a Dethol.

Mae holl ddeunyddiau profion, gan gynnwys siartiau a meddalwedd a gyflenwir ar osodiadau cyfrifiadurol yn destun cyfreithiau hawlfraint sy'n gwahardd unrhyw un rhag copïo'r deunyddiau. Mae trosglwyddo profion papur a phensel i gyfrifiaduron hefyd yn cyfrif fel torri rheolau hawlfraint. Ni ddylid o

Polisi - Asesu Seicometrig

dan unrhyw amgylchiadau llungopïo deunyddiau profion na'u gosod ar gyfrifiadur hebganiatâd cyhoeddwr y prawf yn gyntaf. Bydd y darparwr yn olrhain unrhyw acho